OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2010 Rhif 1892 (Cy.185)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) 2010

Gwnaed - - - -	*22 Gorffennaf 2010*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*23 Gorffennaf 2010*
Y n dod i rym - -	*16 Awst 2010*

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin yr Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth at ddiben a grybwyllir yn yr adran honno, ac mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru ei bod yn hwylus i gyfeiriadau yn y Rheoliadau hyn at offerynnau'r UE gael eu dehongli fel cyfeiriadau at yr offerynnau hynny fel y'u diwygir o bryd i'w gilydd.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 a pharagraff 1A o Atodlen 2 i'r Ddeddf honno.

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1.—(1) Enw' r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) 2010.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru, ac yn dod i rym ar 16 Awst 2010.

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "Rheoliad y Comisiwn" ("*the Commission Regulation*") yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1120/2009 dyddiedig 29 Hydref 2009 sy'n pennu rheolau manwl ar gyfer gweithredu'r cynllun taliad sengl y darperir ar ei gyfer yn Nheitl III o Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 73/2009(**3**); ac

ystyr "Rheoliad y Cyngor" ("*the Council Regulation*") yw Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 73/2009 dyddiedig 19 Ionawr 2009 sy'n sefydlu rheolau cyffredin ar gyfer cynlluniau cymorth

(**1**) O.S. 2005/2766. Yn rhinwedd adrannau 59 a 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraffau 28 a 30 o Atodlen 11 i'r Ddeddf honno, mae swyddogaethau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn arferadwy gan Weinidogion Cymru.
(**2**) 1972 p.68.
(**3**) OJ Rhif L 316, 2.12.2009, t. 10.

uniongyrchol i ffermwyr o dan y polisi amaethyddol cyffredin ac yn sefydlu cynlluniau cymorth penodol i ffermwyr(**4**).

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at offeryn yr UE yn gyfeiriad at yr offeryn hwnnw fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd.

Rhanbarth

3. Mae Cymru yn rhanbarth sengl at ddibenion Erthygl 46(2) o Reoliad y Cyngor.

Maint lleiaf daliad ar gyfer sefydlu hawlogaethau

4. At ddibenion Erthygl 25(4) o Reoliad y Comisiwn maint lleiaf daliad y ceir gwneud cais am sefydlu hawlogaethau i daliad ar ei gyfer yw 0.3 hectar.

Hawliad lleiaf

5. At ddibenion Erthygl 28(1) o Reoliad y Cyngor y lleiafswm sy'n ofynnol ar gyfer hawliad yw un hectar yn achos ffermwyr nad ydynt yn dal hawlogaethau arbennig yn unol â'r Erthygl honno, a 100 yn achos ffermwyr sy'n dal hawlogaethau arbennig.

Dyddiad pan fo rhaid i dir cymwys fod ar gael at ddefnydd y ffermwr

6. Mewn perthynas ag unrhyw flwyddyn pan fo'r ffermwr yn gwneud datganiad ynglŷn â pharseli yn unol ag Erthygl 35(1) o Reoliad y Cyngor, y dyddiad pan fo rhaid i'r parseli hynny fod ar gael at ddefnydd y ffermwr yw 15 Mai yn y flwyddyn honno.

Modiwleiddio gwirfoddol

7. Y cyfraddau yn nhrydedd golofn yr Atodlen yw'r modiwleiddio gwirfoddol y cyfeirir ato yn Erthygl 1 o Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 378/2007 dyddiedig 27 Mawrth 2007 sy'n pennu rheolau ar gyfer modiwleiddio yn wirfoddol y taliadau uniongyrchol(**5**).

Coedlannau cylchdro byr

8. At ddibenion Erthygl 2(n) o Reoliad y Comisiwn—

(a) y rhestr o rywogaethau coed yw—

Gwern (*Alnus spp.*);

Bedw (*Betula spp.*);

Cyll (*Corylus avellana*);

Ynn (*Fraxinus excelsior*);

Pisgwydd (*Tilia cordata*);

Castanwydd (*Castanea sativa*);

Masarn (*Acer pseudoplatanus*);

Helyg (*Salix spp.*);

Poplys (*Populus spp.*);

Oestrwydd (*Carpinus spp.*); a

(**4**) OJ Rhif L 30, 31.1.2009, t. 16 fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 360/2010 (OJ Rhif L 106, 28.4.2010, t. 1).

(**5**) OJ Rhif L95, 5.4.2007, t. 1 fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 73/2009 (OJ Rhif L 30, 31.1.2009, t. 16).